## Arweinydd Cyfathrebu, Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata

### Trosolwg o'r Rôl

**Teitl y Swydd:** Arweinydd Cyfathrebu, Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata
**Oriau:** 28 awr yr wythnos (Agored i'w Drafod)
**Lleoliad:** Cymru (o bell), gyda theithio ledled Cymru
**Cyglog:** £34,271 (gwirioneddol) | 3% Pensiwn
**Buddion:** 25 diwrnod o wyliau blynyddol ynghyd â gwyliau banc | Dyddiau Llesiant | Rhaglen Cymorth i Weithwyr
**Contract:** 1 flwyddyn (gyda golwg ar ei estyn)
**Adrodd i**: Y Cyfarwyddwr
**Gofyniad Ieithyddol:** Cymraeg yn hanfodol

### Croeso gan y Cyfarwyddwr

Diolch am eich diddordeb yn y rôl hon.

Mae Benthyg Cymru yn adeiladu seilwaith benthyg cenedlaethol i Gymru. Rydym yn cefnogi ac yn cysylltu Llyfrgelloedd Pethau a phrosiectau rhannu ledled y wlad, gan weithio gyda sefydliadau cymunedol, cyrff cyhoeddus, a phartneriaid i wneud benthyg yn ddewis normal, hygyrch, ac yn rhywbeth i anelu ato.

Safwn wrth groestoriad economi gylchol, gweithredu cymunedol, mynediad, a chydraddoldebau.

Mae benthyg yn lle prynu yn helpu pobl i arbed arian a byw yn fwy cynaliadwy. Dylai fod gan bawb fynediad i'r pethau mae arnynt eu hangen beth bynnag eu hincwm. Mae cymaint o stwff yn y byd – beth am i ni ei rannu?

Rydym ar adeg bwysig yn ein datblygiad. Mae ein rhwydwaith erbyn hyn yn rhychwantu 35+ o safleoedd, gyda diddordeb cynyddol o'r sector cyhoeddus mewn loceri, faniau, a modelau mynediad newydd. Rydym yn cryfhau systemau digidol, yn mireinio safonau cenedlaethol, ac yn ehangu partneriaethau ag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

Mae cyfathrebu'n ganolog i'r gwaith hwn. Nid yn ddamweiniol y mae benthyg yn tyfu. Mae'n tyfu trwy adrodd storïau clir, marchnata sy'n ddiwylliannol ddeallus, a gwelededd cyhoeddus cyson. Mae'n tyfu pan fydd pobl yn deall y manteision, yn gweld eu hunain wedi'u hadlewyrchu yn y cynnig ac yn ymddiried yn y model.

Nod y rôl hon yw cynyddu benthyg a chyfranogiad ledled Cymru. Mae'n gofyn am rywun sy'n gallu trosi strategaeth yn allbynnau diriaethol, sy'n deall newid ymddygiad, ac sy'n hyderus wrth weithredu mewn amgylchedd cenedlaethol, â'i ffocws ar y genhadaeth.

Rydym yn chwilio am gyfathrebwr blaengar sy'n mwynhau cynhyrchu gwaith, profi syniadau, a chyfrannu a chydweithredu mewn sefydliad sy'n symud ar garlam gydag uchelgais a gwerth cyhoeddus uchel.

**Amdanom ni – Benthyg Cymru**

Mae Benthyg Cymru yn rhwydwaith cenedlaethol  dielw sy'n cefnogi Llyfrgelloedd Pethau a mentrau benthyg ledled Cymru.

Mae ein gwaith yn cynnwys:

- Cefnogi 35 o safleoedd benthyg ledled Cymru
- Cryfhau llywodraethu, safonau diogelwch, a systemau digidol cenedlaethol
- Cyflenwi ymgyrchoedd newid ymddygiad sy'n hybu ailddefnyddio a rhannu
- Cefnogi awdurdodau lleol i sefydlu benthyg mewn mannau cyhoeddus
- Datblygu modelau mynediad arloesol a rhai a alluogir trwy loceri
- Monitro ac adrodd arbedion carbon a chostau aelwydydd
- Meithrin partneriaethau i dyfu economi gylchol a theg, a arweinir gan gymunedau

Gweithiwn yn ddwyieithog gydag ymrwymiad i fynediad cynhwysol, perthnasedd diwylliannol a chyflenwi sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gweithredwn fel tîm cenedlaethol sy'n gweithio o bell a disgwyliwn i'n cydweithwyr weithio gydag ymreolaeth, barn gadarn, ac atebolrwydd.

Aelodau'n rhwydwaith yw sylfaen Benthyg Cymru. Rydym yn eu cefnogi i gyflenwi gwasanaethau benthyg cryf, diogel a chynaliadwy, ar yr un pryd â galluogi cydweithrediad a rhannu gwersi ledled Cymru. Defnyddiwn ddull cyd-gynhyrchu, gan gydnabod bod cymunedau'n deall eu cyd-destun a'u cryfderau eu hun, ac y dylai seilwaith cenedlaethol ategu ac nid goresgyn gwybodaeth leol.

**Pwrpas y Rôl**

Cynyddu benthyg a chyfranogiad ledled Cymru trwy gyflenwi cyfathrebu, marchnata ac adrodd storïau o'r radd flaenaf sy'n newid ymddydgiad, gan drosi strategaeth Benthyg Cymru yn naratifau cyhoeddus clir ac argyhoeddiadol.

Bydd deiliad y swydd yn cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol, ymgysylltu â'r cyhoedd, ac adeiladu proffil, i sicrhau bod benthyg yn weladwy, yn cael ei ddeall a bod ymddiriedaeth ynddo. Bydd y rôl yn cyfrannu cymorth cyfathrebu at brosiectau sefydliadol, partneriaethau, a chynlluniau peilot hefyd, gan helpu i gyfathrebu arloesedd, effaith a gwersi wrth i waith ddatblygu.

Rôl gyflenwi ymarferol yw hon sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu gwaith, profi dulliau, ac ymateb i ddirnadaeth o fewn amgylchedd sy'n symud ar garlam, â'i ffocws ar y genhadaeth.

Rydym yn chwilio am rywun sy'n gallu dod â bywyd a phersonolieth i'n cyfathrebiadau, heb ofni cydbwyso'r risg a'r neges

**Prif Gyfrifoldebau**

**Cyfathrebu a Thwf Benthyg**

- Arwain gwaith datblygu a chyflenwi strategaeth cyfathrebu a marchnata'r sefydliad, gan weithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr a'r tîm ehangach.
- Cyfrannu'n uniongyrchol at gynnydd mesuradwy mewn benthyg a chyfranogiad ledled y rhwydwaith.
- Gweithio gyda chydweithwyr Datblygiad a Gweithrediadau er mwyn i ymgyrchoedd gyd-fynd â thargedau twf ar lefel y safle.
- Trosi'r strategaeth sefydliadol yn gyfathrebu clir, sy'n ennyn diddordeb ar draws sianeli digidol, print ac ymgyrchoedd.
- Cyflenwi cynnwys ac ymgyrchoedd sy'n cefnogi newid ymddygiad a mwy o gyfranogiad.
- Rhoi prawf ar negeseua a fformatau, gan addasu ar sail mewnwelediad a pherfformiad.

**Cynnwys Digidol a Llythrennedd Diwylliannol**

- Creu a rheoli cynnwys digidol ymatebol, sy'n ddiwylliannol-ymwybodol.
- Rheoli sianeli cymdeithasol a digidol.
- Datblygu a chynnal piblinellau marchnata e-bost ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd (sy'n defnyddio Mailchimp ar hyn o bryd).

**Cyfathrebu i Brosiectau a Phartneriaethau**

- Darparu cymorth cyfathrebu i gynlluniau peilot cenedlaethol, partneriaethau sector cyhoeddus, a phrosiectau arloesi.
- Cynhyrchu deunyddiau briffio, astudiaethau achos a chyflwyniadau sy'n cefnogi ymgysylltu allanol.
- Cefnogi digwyddiaau a nodi cyfleoedd strategol am weledd sefydliadol.

**Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau**

- Arwain datblygiad gogwyddau a naratifau mewn cydweithrediad â'r Cyfarwyddwr a'r Bwrdd.
- Llunio datganiadau i'r wasg, cynigion, a deunyddiau i'r cyfryngau.
- Meithrin a chynnal cysylltiadau â'r cyfryngau ledled Cymru a'r tu hwnt.
- Gweithredu gydag ymwybyddiaeth o gyd-destun a sensitifrwydd gwleidyddol ein henw da.

**Cyfathrebu dros y Rhwydwaith**

- Gweithio gyda Thîm Datblygu'r Rhwydwaith i gyflenwi cylchlythyron a chyfathrebu i aelod-sefydliadau.
- Cefnogi cyfathrebu mewn perthynas â sesiynau hyfforddiant a diweddariadau i ganllawiau cenedlaethol.

**Dylunio a Chynhyrchu**

- Cyflenwi dyluniad mewnol sylfaenol (e.e. graffeg ymgyrchoedd, deunyddiau un dudalen).
- Briffio a rheoli dylunwyr allanol lle bo angen.
- Cynnal ansawdd a chysondeb asedau'r brand.

**Rheoli'r Wefan a'r Cynnwys**

- Cynnal a diweddaru cynnwys y wefan i sicrhau cywirdeb, perthnasedd, a'r safonau hygyrchedd diweddaraf.

**Cyflenwi Cymraeg**

- Cyflenwi cyfathrebu dwyieithog ystyrlon, cywir.
- Cyfrannu at gryfhau hunaniaeth Gymraeg a hygyrchedd ar draws allbynnau.

**Mewnwelediad a Gwelliant Cyson**

Arweinydd Effaith a Data

- Gosod metreg a monitro perfformiad cyfathrebu.
- Defnyddio data ac adborth i wella ymagweddau.
- Gwneud argymhellion i wella systemau a ffrydiau gwaith.
- Cydbwyso creadigedd ac atebolrwydd i gyllidwyr a phartneriaid.

**Polisi a Gweithrefnau**

- Gweithredu a chynnal polisïau cyfathrebu e.e. polisi Iaith Gymraeg, polisi Cyfryngau Cymdeithasol, ac ati
- Gweithio gyda'r tîm i sicrhau cydymffurfiaeth â GDPR ar draws systemau

**Manyleb Berson**

**Hanfodol**

- Gallu i siarad/ysgrifennu'r Gymraeg yn rhugl

- Profiad profedig gyda chyfathrebu, marchnata, neu gysylltiadau cyhoeddus yn nhrydydd sector Cymru neu mewn cyd-destun cymaradwy â'i ffocws ar y genhadaeth.
- Sgiliau ysgrifennu cryf am gynulleidfaoedd cyhoeddus, cyfryngau, a rhanddeiliaid.
- Gallu i drosi strategaeth yn allbynnau diriaethol o'r radd flaenaf.
- Llythrenendd digidol a diwylliannol cryf.
- Profiad o gynhyrchu gwaith yn uniongyrchol, nid dim ond rheoli pobl eraill.
- Gallu i reoli blaenoriaethau sy'n anghyson â'i gilydd ac ymarfer barn gadarn.

**Dymunol**

- Profiad o gyflenwi cysylltiadau cyhoeddus ar lefel genedlaethol a rhwydweithiau presennol.
- Sgiliau dylunio graffig sylfaenol (e.e. Canva).
- Profiad o weithio gyda rhwydweithiau neu gyrff seilwaith.
- Deall sut i gyfathrebu i newid ymddygiad.

**Addasrwydd am y Rôl a Disgwyliadau**

Mae'r rôl hon:

- Ar lefel arweinydd.
- Yn canolbwyntio ar gyflenwi.
- Yn weladwy ac yn wynebu tu allan.

- Yn rhagweithiol yn hytrach na dilyn cyfarwyddiadau.
- Yn addas i rywun sy'n hyderus yn gweithredu mewn cyd-destun cenedlaethol.
- Yn ddelfrydol i rywun sy'n mwynhau creu pethau ac yn eu gweld yn glanio.

**Nid yw'r rôl hon yn addas i**:

- Rywun sy'n chwilio am swydd sydd ond yn ymgynghorol strategol.
- Rhywun sy'n anghyfforddus gyda phroffil cyhoeddus neu ymgysylltu â'r cyfryngau.
- Rhywun sy'n ffafrio rheoli pobl eraill yn hytrach na chynhyrchu gwaith.

**Cydraddoldeb a Chynhwysiant**

Mae Benthyg Cymru wedi ymrwymo i greu sefydliad a rhwydwaith cynhwysol. Croesawn geisiadau oddi wrth ymgeiswyr o bob cefndir ac anogwn yn arbennig geisiadau gan gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli.

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon. Gweithredwn yn ddwyieithog ac rydym yn ymrwymo i gryfhau hunaniaeth Gymraeg ar draws ein gwaith.

**Y Broses Ymgeisio**

- Dyddiad cau: 18 Mawrth 2026 (hanner nos)
- Cyfweliadau: 26 a 27 Mawrth (ar-lein)
- I wneud cais: anfonwch CV a Llythyr Cyflwyno (dim mwy na 2 ochr o A4) neu fideo 5-munud sy'n amlinellu pam rydych yn dda am y rôl. 2 enghraifft o waith cyfathrebu sy'n gysylltiedig â'r rôl hon.
- Ymholiadau anffurfiol: becky@benthyg-cymru.org 07446055818
- Cyflwynwch geisiadau i info@benthyg-cymru.org